
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Owen Evans
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
Dyddiad / Date:	28.11.22
Pwnc / Subject:	Newidiadau i'r canllawiau statudol ar bolisiau gwsg ysgol ac edrychiad disgyblion

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

Yn gyffredinol, mae Estyn yn cefnogi'r egwyddorion sy'n ategu'r newidiadau arfaethedig i'r canllawiau ar wisg ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys cyrff llywodraethu ysgolion yn ystyried fforddiadwyedd, mynediad at eitemau gwisg ysgol, a'u hargaeledd, wrth osod eu polisi ar wisg ysgol ac edrychiad disgyblion. Mae hyn yn cefnogi cenhadaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad. Yn ychwanegol, bydd y polisi'n darparu cymorth gwerth chweil i deuluoedd yn ystod yr argyfwng presennol o ran costau byw, gan gefnogi'r datganiad yn yr ymgynghoriad 'Ni ddylai unrhyw wisg ysgol fod mor ddrud fel bod disgyblion neu eu teuluoedd yn teimlo na allant wneud cais am le mewn ysgol benodol neu na allant fynd i ysgol benodol'.

Er ein bod yn meddwl na ddylai ysgolion fynnu bod logo ar wisg ysgol, mae angen iddynt ystyried hefyd sut y byddant yn diogelu disgyblion ar deithiau ac ymweliadau lle na ddefnyddir unrhyw wisg ysgol neu logo. Os yw ysgolion yn mynnu cael logos, dylent ofyn bod logo neu fathodyn wedi'i ddarparu gan yr ysgol yn cael ei bwytho neu'i smwddio ar un eitem o ddilledyn allanol.

Rydym yn cytuno â'r cynnig y dylai ysgolion weithredu cynllun cyfnewid ac/neu ailgylchu gwisg ysgol ar gyfer teuluoedd. Rydym eisoes yn arolygu llawer o ysgolion sy'n gwneud hyn yn llwyddiannus ac yn cynnwys enghreifftiau isod.

Rydym yn meddwl y gallai fod angen canllawiau ychwanegol ar rai ysgolion i'w cynorthwyo i ddeall sut gallant leihau effaith caledi ariannol ar addysg, gan gynnwys adolygu polisiâu gwisg ysgol. Mae gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol rôl allweddol i'w chwarae yn hyn. Mae "[The Price of Pupil Poverty](#)"¹ yn ganllaw defnyddiol ar gyfer ysgolion wrth ystyried datblygu eu polisi gwisg ysgol. Mae'r ddogfen yn cynnwys enghreifftiau buddiol o arferion y gallai ysgolion eu defnyddio i'w cynorthwyo â gweithredu polisi gwisg ysgol priodol.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno y dylai cyrff llywodraethol ysgolion flaenoriaethu fforddiadwyedd wrth osod eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau

Rydym yn cytuno â'r datganiadau yn y canllawiau presennol sy'n datgan 'Bydd cyrff llywodraethol yn rhoi blaenoriaeth uchel i ystyriaethau o ran costau a fforddiadwyedd. Ni ddylai unrhyw wisg ysgol fod mor ddrud fel bod disgyblion neu eu teuluoedd yn teimlo na allant wneud cais am le mewn ysgol benodol neu na allant fynd i ysgol benodol'. Mae arolygiadau diweddar wedi nodi enghreifftiau cadarnhaol o hyn yn ymarferol. Er enghraifft, yn Ysgol Gynradd Pantysgallog, Merthyr Tudful², lliniarodd arweinwyr gostau ar gyfer yr holl deuluoedd trwy ariannu blaser ar gyfer pob disgybl ym Mlwyddyn 5 a 6 i ddarparu ymdeimlad o berthyn a chydlyniant ar gyfer y disgyblion hyn. Mae

1

2

gwybodaeth gadarn yr ysgol am ei chymuned, ei theluoedd, a'i disgyblion, yn allweddol i lwyddiant yr ymagwedd hon.

Trwy weithgarwch arolygu, rydym hefyd wedi gweld enghreifftiau da o ysgolion nad ydynt yn ei gwneud yn ofynnol cael logo brodiog ar wisg ysgol. Mae hyn yn sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw ddisgybl na theulu o ganlyniad i ddiffyg fforddiadwyedd. Hefyd, mae ychydig o ysgolion yn cynnal eu "Siopau Gwisg Ysgol Ail-law" eu hunain sydd hefyd yn cynorthwyo teuluoedd â chostau gwisg ysgol.

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno y dylai cyrff llywodraethol ysgolion sicrhau mynediad hawdd ac argaeledd o ran eitemau gwisg ysgol wrth osod eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau

Mae eitemau gwisg ysgol sydd ar gael yn hawdd, a gyda mynediad hawdd atynt, yn gallu helpu sicrhau nad oes unrhyw gostau ychwanegol. Rydym yn meddwl y dylai ysgolion ystyried eu gwisg ysgol yn ofalus, gan gynnwys dewis o liwiau er mwyn galluogi teuluoedd i ddewis cyflenwr. Hefyd, bydd hyn yn sicrhau bod teuluoedd yn gallu dod o hyd i'r eitemau sydd wedi'u priso'n fwyaf rhesymol.

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno na ddylai logos fod yn ofynnol ar wisg ysgol?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau

Rydym yn cytuno na ddylai ysgolion ei gwneud yn ofynnol bod logos yn cael eu hargraffu neu'u brodio ar wisg ysgol, oherwydd gall hyn ychwanegu at gost yr eitemau a brynir. Fodd bynnag, efallai byddai ysgolion eisiau cynnig dewisiadau eraill rhatach fel bathodyn ysgol sy'n gallu cael ei ddarparu gan yr ysgol.

Bydd angen i ysgolion ystyried fel rhan o'u hasesiadau risg sut maen nhw'n diogelu disgyblion, er enghraifft pan fyddant allan ar daith ysgol, gan ystyried unrhyw drefniadau ynghylch gwisg ysgol.

Cwestiwn 4 – Ydych chi'n cytuno y dylid cyfyngu logos i un dilledyn allanol, er enghraifft siwmpwr, cardigan neu flaser?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau

Byddai cyfyngu'r angen am roi logos ar ddillad allanol yn helpu lleihau costau.

Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno y dylid darparu bathodynau logo i'w smwddio neu'u pwytho ar wisg ysgol ar gyfer disgyblion, yn rhad ac am ddim?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau

Pe bai bathodynau i'w smwddio neu'u gwnïo ar wisg ysgol yn cael eu darparu yn rhad ac am ddim, byddai hyn yn lleihau costau gwisg ysgol i deuluoedd. Byddai hefyd yn galluogi teuluoedd i brynu gwisg ysgol blaen o blith dewis o gyflenwyr.

Cwestiwn 6 – Ydych chi'n cytuno na ddylai fod yn ofynnol cael logos ar ddillad chwaraeon ysgol ac offer ysgol arall?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau

Nid ydym yn meddwl bod angen logo ysgol ar ddillad chwaraeon sy'n cael eu gwisgo ar gyfer gwersi addysg gorfforol neu wersi gemau, gan fod hyn o fewn ffiniau tir yr ysgol. Fodd bynnag, efallai byddai'n briodol ei gwneud yn ofynnol cael logo ar un dilledyn allanol gwisg chwaraeon pan fydd yr ysgol naill ai'n cystadlu yn erbyn darparwr allanol neu ble cynhelir gweithgareddau chwaraeon oddi ar safle'r ysgol. Yn yr achosion hyn, dylai ysgolion ystyried rhoi benthg neu ddarparu eu cit â'u brand eu hunain i ddisgyblion.

O dan adran 175 Deddf Addysg 2002 ("Deddf 2002"), rhaid i gorff llywodraethol wneud trefniadau ar gyfer sicrhau bod eu swyddogaethau yn gysylltiedig ag ymddygiad yr ysgol yn cael eu harfer gyda bwriad i ddiogelu a hyrwyddo lles y disgyblion yn yr ysgol. Felly, pan fydd corff llywodraethol yn ystyried cyflwyno polisi gwisg ysgol, dylai ystyried y ddyletswydd drosfwaol hon i wneud hynny mewn ffordd sy'n diogelu ac yn hyrwyddo lles disgyblion.

Dylai ysgolion hyrwyddo'r defnydd o Grant Mynediad at y Grant Datblygu Disgyblion y gellir ei ddefnyddio i brynu cit addysg gorfforol ysgol; gwisg ysgol ar gyfer gweithgareddau ehangach y tu allan i'r diwrnod ysgol (fel chwaraeon, sgowtiaid a geidiaid); offer ysgol lle mae gweithgareddau'r cwricwlwm newydd yn dechrau (fel dylunio a thechnoleg); ac offer ar gyfer teithiau y tu allan i oriau ysgol (fel dillad di-ddos ar gyfer dysgu yn yr awyr agored).

Cwestiwn 7 – Mae llawer o ysgolion yn gwneud trefniadau un cyflenwr gyda chyflenwr gwisg ysgol. Mae hyn yn golygu nad oes dewis ynglŷn â ble y caiff eitemau gwisg ysgol â brand eu prynu. Ydych chi'n cytuno y dylai ysgolion osgoi cytundebau un cyflenwr gyda chyflenwyr gwisg ysgol â brand?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau

Rydym yn meddwl y dylai ysgolion roi dewis o gyflenwyr i rieni, a chynnwys eitemau sydd ar gael yn hawdd o siopau sy'n cyflenwi nwyddau am lai o gost, fel archfarchnadoedd lleol, lle bo modd. Pan fydd eitem gwisg ysgol ar gael o un safle gwerthu yn unig, mae prisiau'n debygol o fod yn uwch nag y byddent pe bai rhieni'n gallu prynu'r eitem o ffynonellau eraill.

Cwestiwn 8 – Ydych chi'n cytuno y dylai ysgolion fod yn dryloyw wrth ddangos bod unrhyw fudd o gytundeb ariannol sydd ganddynt â chyflenwr gwisg ysgol yn cael ei drosglwyddo i'r cwsmer?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau

I gydymffurfio â rheoliadau ariannol, dylai ysgolion bob amser ddangos budd defnyddio cyflenwr penodol. Dylai unrhyw arbedion sy'n cael eu trafod gyda chyflenwyr bob amser gael eu trosglwyddo i rieni, ble bynnag y bo modd.

Cwestiwn 9 – Ydych chi'n cytuno, os yw ysgolion yn gwneud cytundeb gyda chyflenwr gwisg ysgol, y dylent sicrhau bod costau defnyddio'r cyflenwr hwn yn debyg i gostau gwisg ysgol sydd ar gael o fanwerthwyr y stryd fawr neu archfarchnadoedd?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau

Yn ddelfrydol, byddai teuluoedd yn gallu prynu gwisg ysgol gan ystod o gyflenwyr i helpu sicrhau costau cystadleuol. Dylai ysgolion bob amser ddod o hyd i gyflenwyr sy'n gystadleuol o ran pris, ac ar gael yn rhwydd.

Cwestiwn 10 – Ydych chi'n cytuno y dylai ysgolion weithredu cynllun cyfnewid ac/neu ailgylchu gwisg ysgol sydd ar gael i deuluoedd?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau

Mae cost uchel gwisg ysgol o bosibl yn rhwystr rhag dysgu i rai disgyblion, a gall cynllun cyfnewid ac/neu ailgylchu gwisg ysgol fod yn fuddiol iawn. Rydym wedi arolygu llawer o ysgolion sy'n gwneud hyn yn llwyddiannus.

Er enghraifft, yn ystod y pandemig, nododd Ysgol Gynradd Waun Wen yn Abertawe fod angen cefnogi'r gymuned trwy ddarparu bwyd, dillad a chynhyrchion eraill ar gyfer yr aelwyd. Mae'r rhain ar gael trwy siop dros dro. Mae llywodraethwyr yn rhoi sylw i gau'r bwch o ran tlodi ac yn nodi'r effaith gadarnhaol a gaiff siop dros dro'r ysgol ar gynorthwyo teuluoedd sydd mewn angen yn ariannol. Gofynnwyd i'r ysgol ysgrifennu astudiaeth achos i Estyn ar ddileu rhwystrau rhag dysgu.

Cwestiwn 11 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai canllawiau ar bolisiâu gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion yn eu cael ar y Gymraeg, ac yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Nid ydym yn ystyried y bydd y polisi'n cael unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg, yn benodol.

Cwestiwn 12 – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y canllawiau ar bolisiâu gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Cwestiwn 13 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae angen i gyrrff llywodraethol a phenaethiaid ystyried peidio â gwahaniaethu yn anghyfreithlon ar sail rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd

rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred ac anabledd. Dylai ysgolion roi ystyriaeth briodol i hyn yn eu polisiau gwisg ysgol, gan beidio ag eirioli gofynion penodol o ran gwisg ysgol yn gysylltiedig â rhywedd, er enghraifft.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: